**EITEM RHIF 2 AR Y RHAGLEN**

## PANEL PENODIADAU ARBENNIG
## (CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: DYSGU GYDOL OES)

Cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 10fed Rhagfyr am 11.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr H. H. Evans (Cadeirydd), J. Bellis, J. A. Davies, T. R. Hughes, M. M. Jones a D. I. Smith.

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr Gweithredol, Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim: Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L. Jones) a Chlerc y Sir ynghyd ag L. Judd

### YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Chamberlain Jones ac R. W. Hughes.

### 1 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 6ed Hydref 2008.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 6ed Hydref 2008 fel cofnod cywir a'i lofnodi gan y Cadeirydd.*

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD****, dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol, oherwydd ei bod y debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.*

**3 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: DYSGU GYDOL OES – RHESTR FER**

Yna ystyriodd yr Aelodau'r wyth cais a dderbyniwyd a oedd wedi eu dosbarthu iddynt. Esboniodd ymgynghorydd y Cyngor natur ei rôl a sut aeth y broses recriwtio rhagddi. Cyflwynodd yr ymgynghorydd curriculum vitae ac adroddiad ysgrifenedig ar bob ymgeisydd, yn crynhoi gyrfa ddiweddar a'r cymhelliad i wneud cais, sgiliau perthnasol a phrofiad, a chrynodeb ac argymhelliad.

Ystyriodd yr Aelodau haeddiannau pob cais a phynciau ar gyfer cwestiynau a chyflwyniadau.

***PENDERFYNWYD***

*(i) Bod ymgeiswyr 1, 2, 3 a 4 yn mynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu, i'w chynnal ar 15fed Rhagfyr 2008.*

*(ii) Bod y Panel, ar ôl cwblhau'r Ganolfan Asesu, yn cyfarfod unwaith eto i ystyried canlyniadau'r Ganolfan Asesu, derbyn cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr, adnabod yr ymgeiswyr hynny sydd i fynd ymlaen i gyfweliad terfynol gan y Cyngor ar 16eg Rhagfyr, a phenderfynu ar gwestiynau ac amserlen y cyfweliadau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10 p.m.